This document is also available in English

CYNNWYS

**ADRAN 19**

**19. Cod Ymddygiad Aelodau**


19.1 Rhagarweiniad
19.2 Dehongli
19.3 Darpariaethau Cyffredinol
19.4 Buddiannau
19.5 Cofrestr Buddiannau Aelodau


**Atodiadau**


Atodiad 1 - Protocol Hunan Reoleiddio Aelodau
Atodiad 2 – Protocol Rhoddion A Lletygarwch – Aelodau

## ADRAN 19 - COD YMDDYGIAD AELODAU

### 19.1 Rhagarweiniad

Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau sy'n cynnwys y 10 egwyddor ganlynol.

1. **Anhunanoldeb**

   Rhaid i aelodau weithredu yn llwyr er budd y cyhoedd. Ni ddylent fyth ddefnyddio eu swyddi fel aelod i sicrhau mantais amhriodol i'w hunain nac i roi mantais neu anfantais yn amhriodol i eraill.

2. **Gonestrwydd**

   Rhaid i aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad preifat perthnasol i'w dyletswyddau cyhoeddus a chymryd camau i ddatrys unrhyw wrthdaro mewn modd sy'n diogelu lles y cyhoedd.

3. **Uniondeb a Phriodoldeb**

   Ni ddylai Aelodau roi eu hunain mewn sefyllfa lle caiff eu huniondeb ei gwestiynu gan unrhyw ymrwymiad ariannol neu ymrwymiad arall i unigolion neu sefydliadau a allai geisio dylanwadu arnynt wrth gyflawni eu dyletswyddau. Rhaid i aelodau osgoi dangos ymddygiad felly bob amser.

4. **Dyletswydd i Gynnal y Gyfraith**

   Rhaid i Aelodau weithredu i gynnal y gyfraith neu weithredu yn unol â'r ymddiriedaeth y mae'r cyhoedd wedi ei ddangos ynddynt.

5. **Stiwardiaeth**

   Wrth gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau rhaid i Aelodau sicrhau fod adnoddau eu hawdurdod yn cael eu defnyddio yn gyfreithlon ac yn ddarbodus.

6. **Gwrthrychedd wrth wneud Penderfyniadau**

Wrth gyflawni eu cyfrifoldebau, gan gynnwys penodi pobl, dyfarnu contractau, neu argymell unigolion i dderbyn gwobrau a buddion, rhaid i Aelodau wneud penderfyniadau ar sail teilyngdod. Er ei bod yn rhaid i Aelodau ystyried cyngor proffesiynol swyddogion ac er y gallent ystyried barn eraill, gan gynnwys eu grwpiau gwleidyddol, eu cyfrifoldeb nhw yw penderfynu ar eu safbwynt ac, os yw'n briodol, sut maent am bleidleisio ar unrhyw fater.

7. **Cydraddoldeb a Pharch**

Rhaid i Aelodau gyflawni eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau gan roi ystyriaeth ddigonol i'r angen i hyrwyddo cyfleoedd cyfartal i bawb, beth bynnag fo'u rhyw, hil, anabledd, rhywioldeb tueddfryd rhywiol, statws priodasol, oed neu grefydd, a dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill.

**8. Bod yn Agored**

Rhaid i aelodau fod mor agored â phosib' am eu holl weithredoedd a rhai dan eu hawdurdod. Mae'n rhaid iddynt geisio sicrhau mai dim ond yn unol â'r gyfraith maent yn cyfyngu ar ddatgelu gwybodaeth

**9. Atebolrwydd**

Mae Aelodau'n atebol i'r etholwyr a'r cyhoedd yn gyffredinol am eu gweithredoedd ac am y ffordd maent yn cyflawni eu cyfrifoldebau fel aelod. Rhaid iddynt fod yn barod i'w cyflwyno eu hunain i unrhyw brosesau craffu sy'n briodol ar gyfer eu cyfrifoldebau.

**10. Arweinyddiaeth**

Rhaid i Aelodau hyrwyddo a chefnogi'r egwyddorion hyn drwy arweinyddiaeth ac esiampl er mwyn hyrwyddo hyder y cyhoedd yn eu swydd ac yn yr awdurdod. Mae'n rhaid iddynt barchu didueddrwydd ac uniondeb swyddogion statudol yr awdurdod a'i weithwyr eraill.

**ADRAN 19.2 - COD YMDDYGIAD ENGHREIFFTIOL**

## 19.2 Rhan 1 - Dehongli

**1**.—(1) Yn y cod hwn —

mae “aelod cyfetholedig” (“*co-opted member*”), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yn golygu unigolyn nad yw’n aelod o’r awdurdod ond sy’n-

(a) aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o’r awdurdod, neu

(b) yn aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu gyd is-bwyllgor i’r awdurdod ac sy’n cynrychioli’r awdurdod arno, ac sydd â’r hawl i bleidleisio ar unrhyw gwestiwn sydd i’w benderfynu mewn unrhyw gyfarfod o’r pwyllgor neu o’r is-bwyllgor hwnnw;

Ystyr “cyfarfod” (“*meeting*”) yw unrhyw gyfarfod -

(a) o’r awdurdod perthnasol,

(b) o unrhyw bwyllgor gwaith neu fwrdd o’r awdurdod perthnasol,

(c) o unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-bwyllgor ar y cyd o’r awdurdod perthnasol neu unrhyw bwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-bwyllgor ar y cyd ar gyfer unrhyw bwyllgor gwaith neu fwrdd o’r awdurdod, neu

(d) pan fydd aelodau neu swyddogion yr awdurdod perthnasol yn bresennol heblaw mewn cyfarfod grŵp gwleidyddol a gyfansoddwyd yn unol â rheoliad 8 Rheoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau a Grwpiau Gwleidyddol) 1990,

ac yn cynnwys amgylchiadau y mae aelod o bwyllgor gweithredol neu fwrdd neu swyddog yn gweithredu ar eu pennau eu hunain yn cyflawni swyddogaeth yr awdurdod;

mae “aelod” (“*member*”) yn cynnwys, oni bai bod y cyd-destun yn nodi fel arall, aelod cyfetholedig;

mae “cymdeithas gofrestredig" yn golygu cymdeithas, heblaw cymdeithas a gofrestrwyd fel undeb credyd, sy'n -

(a) gymdeithas gofrestredig o fewn yr ystyr a roddir gan adran 1 (1) o Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014; neu

(b) cymdeithas gofrestredig neu y bernir i gael ei chofrestru o dan Ddeddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus (Gogledd Iwerddon) 1969;

ystyr "cofrestr o gysylltiadau aelodau" (*"register of members' interests"*) yw'r gofrestr a sefydlir ac a gedwir o dan adran 81 Deddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr "awdurdod perthnasol (*"relevant authority"*) yw-

(a) cyngor sir;

(b) cyngor bwrdeistref sirol,

(c) cyngor cymuned,

(d) awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 Deddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 y Ddeddf honno'n berthnasol iddynt,

(e) awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 Deddf yr Amgylchedd 1995;

Ystyr "chi" (*"you"*) yw chi fel aelod neu aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol; ac

ystyr "eich awdurdod" (*"your authority"*) yw'r awdurdod perthnasol yr ydych chi'n aelod neu'n aelod cyfetholedig ohono.

(2) Mewn perthynas â chyngor cymuned-

(a) ystyr "swyddog priodol" (*"proper officer"*) yw swyddog o'r cyngor hwnnw o fewn ystyr adran 270(3) Deddf Llywodraeth Leol 1972; ac

(b) ystyr "pwyllgor safonau" ("*standards committee*") yw pwyllgor safonau'r cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol sydd â swyddogaethau mewn perthynas â'r cyngor cymuned y mae'n gyfrifol amdano o dan adran 56(1) a (2) Deddf Llywodraeth Leol 2000.

## 19.3 Rhan 2 - Darpariaethau Cyffredinol

**2**. - (1) Ac eithrio pan fo paragraff 3(a) yn berthnasol, mae'n rhaid i chi gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn-

(a) pa bryd bynnag y byddwch yn cynnal busnes eich awdurdod, neu'n bresennol mewn un o gyfarfodydd eich awdurdod;

(b) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu yn rôl aelod y cawsoch eich ethol neu'ch penodi iddi;

(c) pa bryd bynnag y byddwch yn gweithredu, honni eich bod yn gweithredu neu'n rhoi'r argraff eich bod yn gweithredu fel cynrychiolydd eich awdurdod; neu

(d) ar bob adeg ac mewn unrhyw gapasiti, mewn perthynas â'r ymddygiad a nodir ym mharagraffau 6(1)(a) a 7.

(2) Dylech ddarllen y cod hwn ar y cyd â'r egwyddorion cyffredinol a nodwyd dan adran 49(2) Deddf Llywodraeth Leol 2000 o ran Cymru.

**3**. Os byddwch wedi'ch ethol, eich penodi neu'ch enwebu gan eich awdurdod i wasanaethu -

(a) ar awdurdod perthnasol arall, neu unrhyw gorff arall, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Lleol, mae'n rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â chod ymddygiad yr awdurdod arall neu'r corff arall hwnnw; neu

(b) ar unrhyw gorff arall nad oes ganddo god sy'n ymwneud ag ymddygiad ei aelodau, rhaid i chi, pan fyddwch yn gweithredu ar ran y corff arall hwnnw, gydymffurfio â'r cod ymddygiad hwn, ac eithrio pan fydd yn gwrthdaro ag unrhyw rwymedigaethau cyfreithlon eraill y gall y corff hwnnw fod yn ddarostyngedig iddynt.

**4**. Mae'n rhaid i chi -

(a) gyflawni eich dyletswyddau a'ch cyfrifoldebau gan roi sylw dyladwy i'r egwyddor y dylai fod cyfle cyfartal i bawb, waeth beth bynnag fo'u rhyw, hil, anabledd, cyfeiriadedd rhywiol, oed neu grefydd;

(b) dangos parch ac ystyriaeth tuag at eraill;

(c) peidio ag ymddwyn fel bwli neu aflonyddu unrhyw un; a

(d) pheidio â gwneud unrhyw beth sy'n cyfaddawdu, neu sy'n debyg o gyfaddawdu, didueddrwydd y rhai sy'n gweithio ar gyfer neu ar ran, eich awdurdod.

**5**. Ni ddylech -

(a) ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol neu wybodaeth y dylid ei hystyried fel gwybodaeth gyfrinachol, heb ganiatâd datganedig gan unigolyn sydd ag awdurdod i roi caniatâd o'r fath, oni bai bod yn rhaid gwneud hynny yn ôl y gyfraith;

(b) atal unrhyw un rhag cael mynediad at wybodaeth y mae gan yr unigolyn hwnnw hawl i'w chael yn ôl y gyfraith.

**6**.—(1) Mae'n rhaid i chi —

(a) beidio ag ymddwyn mewn modd y gellir ei ystyried fel ymddygiad sy'n dwyn anfri ar eich swydd neu'r awdurdod;

(b) adrodd, boed trwy weithdrefn adrodd gyfrinachol eich awdurdod neu'n uniongyrchol i'r awdurdod priodol, unrhyw ymddygiad gan aelod arall neu unrhyw un sy'n gweithio ar gyfer, neu ar ran, eich awdurdod, yr ydych yn credu ei fod yn golygu neu'n debyg o olygu ymddygiad anghyfreithlon (nid yw'n cynnwys troseddau neu ymddygiad sy'n gymwys i dderbyn cosb ar ffurf cosb benodedig at ddibenion y paragraff hwn);

(c) adrodd i swyddog monitro eich awdurdod am unrhyw ymddygiad gan unrhyw aelod arall y mae'n rhesymol i chi fod o'r farn ei fod yn groes i'r cod ymddygiad hwn;

(d) peidio â gwneud cwynion blinderus, maleisus neu'n ofer, yn erbyn aelodau eraill neu unrhyw un sy'n gweithio i'ch awdurdod, neu ar ran eich awdurdod.

(2) Mae'n rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw gais gan swyddog monitro eich awdurdod, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, mewn perthynas ag ymchwiliad a wneir yn unol â'u gwahanol bwerau statudol.

**7**. Ni ddylech -

(a) yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, ddefnyddio neu geisio defnyddio eich swydd yn amhriodol er mwyn rhoi mantais i chi neu unrhyw unigolyn arall, neu greu neu osgoi anfantais i chi neu unrhyw unigolyn arall;

(b) defnyddio, neu awdurdodi eraill i ddefnyddio, adnoddau eich awdurdod-

(i)yn annoeth;

(ii) yn groes i ofynion eich awdurdod;

(iii) yn anghyfreithlon;

(iv) ac eithrio mewn dull a fwriedir i hwyluso neu i ffafrio cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu'r swydd yr ydych wedi'ch ethol neu'ch penodi iddo neu iddi;

(v) yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol; neu

(vi) yn amhriodol at ddibenion preifat.

**8**. Mae’n rhaid i chi -

(a) pan fyddwch yn cyfrannu mewn cyfarfodydd neu’n gwneud penderfyniadau ynglŷn â busnes eich awdurdod, wneud hynny’n seiliedig ar rinweddau’r amgylchiadau dan sylw ac er budd y cyhoedd gan roi sylw i unrhyw gyngor perthnasol a ddarparwyd gan swyddogion eich awdurdod, yn enwedig gan-

(i) bennaeth gwasanaeth cyflogedig yr awdurdod;

(ii) prif swyddog cyllid yr awdurdod;

(iii) swyddog monitro’r awdurdod;

(iv) prif swyddog cyfreithiol yr awdurdod (y dylid ymgynghori â nhw os oes unrhyw amheuaeth ynglŷn â phŵer yr awdurdod i weithredu, ynghylch a yw'r cam gweithredu arfaethedig o fewn fframwaith y polisi a gytunwyd gan; yr awdurdod neu lle y gallai canlyniadau cyfreithiol unrhyw weithredu neu fethu â gweithredu gan yr awdurdod achosi ôl-effeithiau pwysig);

(b) rhoi rhesymau dros bob penderfyniad yn unol ag unrhyw ofynion statudol ac unrhyw ofynion ychwanegol rhesymol a osodir gan eich awdurdod.

**9**. Mae’n rhaid i chi -

(a) barchu’r gyfraith a rheolau eich awdurdod ynglŷn â hawlio treuliau a lwfansau mewn perthynas â'ch dyletswyddau fel aelod;

(b) osgoi derbyn unrhyw roddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir gan eich awdurdod), na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny’n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai’n rhesymol ymddangos fel pe bai’n gwneud hynny.

(c) Os ydych chi’n arweinydd grŵp gwleidyddol, mae’n rhaid i chi:

(i) gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau’r grŵp; a
(ii) chydweithredu â phwyllgor safonau’r cyngor (ac unrhyw un o is-bwyllgorau’r pwyllgor hwnnw) i arfer swyddogaethau’r pwyllgor safonau.
(iii) Wrth gydymffurfio ag i) ac ii) uchod, mae’n rhaid i chi ystyried unrhyw ganllawiau a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru.

**19.4 <u>Rhan 3 - Cysylltiadau</u>**

**Cysylltiadau Personol**

**10**.—(1) Ym mhob mater rhaid i chi ystyried a oes gennych gysylltiad personol, ac a yw'r cod ymddygiad hwn yn ei gwneud yn ofynnol i chi ddatgelu'r cysylltiad hwnnw.

(2) Mae’n rhaid i chi ystyried fod gennych chi gysylltiad personol mewn unrhyw fusnes yn eich awdurdod -

(a) os yw’n gysylltiedig â’r canlynol, neu’n debygol o effeithio arnynt-

(i) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gynhaliwyd gennych chi;

(ii) unrhyw unigolyn sy’n eich cyflogi neu wedi'ch penodi i unrhyw gwmni yr ydych yn bartner ynddo neu unrhyw gwmni lle’r ydych yn gyfarwyddwr ac yn derbyn tâl;

(iii) unrhyw unigolyn, ac eithrio eich awdurdod, sydd wedi rhoi taliad i chi mewn cysylltiad â’ch etholiad neu mewn cysylltiad ag unrhyw dreuliau a achoswyd trwy gyflawni eich dyletswyddau fel aelod;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol sydd â man busnes neu dir yn ardal eich awdurdod, ac y mae gennych chi fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau yn y corff hwnnw sydd y tu hwnt i’r gwerth enwol o £25,000 neu un ganfed o gyfanswm cyfalaf cyfrannau dyroddedig y corff hwnnw;

(v) unrhyw gontract ar gyfer nwyddau, gwasanaethau neu waith a wnaed rhwng eich awdurdod a chi neu gwmni yr ydych yn bartner ynddo, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr iddo ac yn derbyn tâl am hynny, neu gorff o’r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod;

(vi) unrhyw dir y mae gennych chi fuddiant llesiannol ynddo ac sydd o fewn ardal eich awdurdod;

(vii) unrhyw dir y mae eich awdurdod yn landlord arno ac y mae cwmni yr ydych yn bartner ynddo, cwmni yr ydych yn gyfarwyddwr arno ac yn derbyn tâl, neu gorff o'r math a ddisgrifir yn is-baragraff (iv) uchod yn denant arno;

(viii) unrhyw gorff yr ydych wedi'ch ethol, eich penodi neu'ch enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(ix) unrhyw -

(aa) awdurdod neu gorff cyhoeddus sy'n gweithredu swyddogaethau o natur gyhoeddus;

(bb) cwmni, cymdeithas gofrestredig, elusen, neu gorff a chanddo ddibenion elusennol;

(cc) corff y mae eu prif ddibenion yn cynnwys dylanwadu ar farn neu bolisi cyhoeddus;

(dd) undeb llafur neu gymdeithas broffesiynol; neu

(ee) clwb preifat neu gymdeithas breifat sy'n gweithredu o fewn ardal eich awdurdod;

yr ydych yn aelod ohono neu ohoni neu mewn safle rheolaeth neu reoli cyffredinol ynddo neu ynddi;

(x) unrhyw dir yn ardal eich awdurdod y mae gennych chi drwydded (ar eich pen eich hun neu gydag eraill) i breswylio am 28 diwrnod neu fwy;

*[Nodyn: Mae is-baragraff (b) wedi'i hepgor].*

(c) penderfyniad y gellir ystyried yn rhesymol fod y penderfyniad yn effeithio ar -

(i) eich lles neu sefyllfa ariannol, neu les neu sefyllfa ariannol rhywun yr ydych yn byw gyda nhw, neu unrhyw unigolyn y mae gennych gysylltiad personol agos â nhw;

(ii) unrhyw gyflogaeth neu fusnes a gyflawnir gan unigolion fel y disgrifiwyd yn 10(2)(c)(i);

(iii) unrhyw unigolyn sy'n cyflogi neu wedi penodi unigolion a ddisgrifiwyd yn 10(2)(c)(i), unrhyw gwmni y maent yn bartner ynddynt, neu unrhyw gwmni y maent yn gyfarwyddwyr iddynt;

(iv) unrhyw gorff corfforaethol y mae gan unigolion a ddisgrifir yn 10(2)(c)(i) fuddiant llesiannol mewn dosbarth o warannau sy'n werth mwy na'r gwerth enwol o £5,000; neu

(v) unrhyw gorff a restrwyd ym mharagraffau 10(2)(a)(ix)(aa) i (ee) y mae gan yr unigolion a ddisgrifiwyd yn 10(2)(c)(i) safle o reolaeth neu reoli cyffredinol ynddo,

i hynny i raddau mwy-

(aa) yn achos awdurdod gyda rhanbarthau neu wardiau etholiadol, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu treth y cyngor, unigolion eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr y rhanbarth neu'r ward etholiadol, yn ôl y digwydd, y bydd y penderfyniad yn effeithio arnynt; neu

(bb) ym mhob achos arall, na'r rhelyw o bobl eraill sy'n talu treth y cyngor, o bobl eraill sy'n talu ardrethi neu breswylwyr eraill ardal yr awdurdod.

**Datgelu Cysylltiadau Personol**

11 - (1) Pan fydd gennych gysylltiad personol mewn unrhyw fusnes o'r awdurdod a'ch bod yn mynychu cyfarfod ble mae'r busnes hwnnw yn cael ei ystyried, mae'n rhaid i chi ddatgan ar lafar yn y cyfarfod hwnnw am bresenoldeb a natur y cysylltiad hwnnw cyn neu ar ddechrau'r ystyriaeth, neu pan fydd y cysylltiad yn dod yn amlwg.

(2) Pan fydd gennych gysylltiad personol mewn unrhyw fusnes o'ch awdurdod ac eich bod yn gwneud-

(a) sylwadau ysgrifenedig (boed mewn llythyr, ffacsimili neu ryw fath o ohebiaeth electronig arall) i aelod neu swyddog yn eich awdurdod mewn perthynas â'r busnes hwnnw, dylech gynnwys manylion y cysylltiad hwnnw yn yr ohebiaeth ysgrifenedig; neu

(b) sylwadau llafar (boed yn bersonol neu ryw fath o ohebiaeth electronig) i aelod neu swyddog eich awdurdod dylech ddatgelu'r cysylltiad ar ddechrau sylwadau o'r fath, neu pan ddaw i'r amlwg fod gennych gysylltiad o'r fath, a chadarnhau'r sylwadau a'r cysylltiad yn ysgrifenedig o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

(3) Yn ddarostyngedig i baragraff 14 (1)(b) isod, pan fydd gennych gysylltiad personol mewn unrhyw fusnes yn eich awdurdod ac rydych wedi gwneud penderfyniad trwy arfer swyddogaeth pwyllgor gweithredol neu fwrdd, mae'n rhaid i chi sicrhau bod unrhyw ddatganiad ysgrifenedig o'r penderfyniad yn cofnodi bodolaeth a natur eich cysylltiad.

(4) Mae'n rhaid i chi, mewn perthynas â chysylltiad personol na ddatgelwyd yn flaenorol, cyn neu ar ôl diwedd cyfarfod lle bod datgeliad yn cael ei wneud yn unol ag is-baragraff 11(1), roi hysbysiad ysgrifenedig i'ch awdurdod yn unol ag unrhyw ofynion a nodwyd gan swyddog monitro eich awdurdod, neu mewn perthynas â chyngor cymuned, i swyddog priodol eich awdurdod o bryd i'w gilydd ond yn cynnwys y canlynol fel isafswm-

(a) manylion y cysylltiad personol;

(b) manylion am y busnes y mae'r cysylltiad personol yn ymwneud ag o; ac

(c) eich llofnod.

(5) Pan fydd eich swyddog monitro wedi cytuno bod y wybodaeth sy'n gysylltiedig â'ch cysylltiad personol yn wybodaeth sensitif, yn unol â pharagraff 16(1), mae eich rhwymedigaethau o dan baragraff 11 i ddatgelu gwybodaeth o'r fath, boed ar lafar neu'n ysgrifenedig, yn cael eu disodli gan rwymedigaeth i ddatgelu bodolaeth cysylltiad personol ac i gadarnhau fod eich swyddog monitro wedi cytuno bod natur cysylltiad personol o'r fath yn wybodaeth sensitif.

(6) At ddibenion is-baragraff (4), bydd cysylltiad personol yn cael ei bennu fel un sydd wedi'i ddatgelu'n flaenorol os bydd hysbysiad ysgrifenedig wedi'i ddarparu yn unol â'r cod hwn ers y dyddiad diwethaf y cawsoch eich ethol, eich penodi neu'ch enwebu fel aelod o'ch awdurdod.

(7) At ddibenion is-baragraff (3), os na ddarperir hysbysiad ysgrifenedig yn unol â'r paragraff hwnnw, bernir na fyddwch wedi datgelu cysylltiad personol yn unol â'r cod hwn.

## Cysylltiadau sy'n Rhagfarnu

**12**- (1) Yn amodol ar is-baragraff (2) isod, os bydd gennych gysylltiad personol mewn unrhyw fusnes yn eich awdurdod bydd gennych hefyd gysylltiad sy'n rhagfarnu yn y busnes os yw'r cysylltiad yn un y byddai aelod o'r cyhoedd gyda gwybodaeth ynglŷn â'r ffeithiau perthnasol yn ei weld mor sylweddol fel ei fod yn debygol o ragfarnu eich safbwyntiau er budd y cyhoedd.

(2) Yn amodol ar is-baragraff (3), ni ystyrir fod gennych gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes lle bo'r busnes-

(a) yn ymwneud ag-

(i) awdurdod perthnasol arall rydych chi hefyd yn aelod ohono;

(ii) awdurdod cyhoeddus arall neu gorff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus lle mae gennych chi rôl reolaeth neu reoli gyffredinol;

(iii) unrhyw gorff yr ydych wedi'ch ethol, eich penodi neu'ch enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(iv) eich rôl fel llywodraethwr ysgol (os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod) oni bai bod y busnes yn benodol gysylltiedig â'r ysgol rydych chi'n un o'i llywodraethwyr;

(v) eich rôl fel aelod o Fwrdd Iechyd Lleol os na chawsoch eich penodi neu eich enwebu gan eich awdurdod i fod arno;

(b) yn ymwneud â-

(i) swyddogaethau tai eich awdurdod lle bo gennych denantiaeth neu brydles gyda'ch awdurdod, ar yr amod nad oes gennych ôl-ddyledion rhent gydag eich awdurdod o fwy na deufis, ac ar yr amod nad yw'r swyddogaethau'n berthnasol â'ch tenantiaeth neu brydles;

(ii) swyddogaethau eich awdurdod mewn perthynas â phrydau ysgol, cludiant a threuliau teithio, lle'r ydych chi'n warchodwr, rhiant, nain neu daid neu â chyfrifoldeb rhiant (fel y nodir yn adran 3 Deddf Plant 1989) ar gyfer plentyn sydd mewn addysg llawn amser, oni bai ei fod yn ymwneud â'r ysgol y mae'r plentyn hwnnw'n ei mynychu;

(iii) swyddogaethau eich awdurdod mewn perthynas â thâl salwch statudol o dan Rhan XI Deddf Cyfraniadau a Budd-daliadau Nawdd Cymdeithasol 1992, pan fyddwch yn derbyn, neu'n gymwys i dderbyn tâl o'r fath gan eich awdurdod;

(iv) swyddogaethau eich awdurdod mewn cysylltiad â lwfans neu daliad a wneir yn unol â darpariaethau Rhan 8 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, neu lwfans neu bensiwn a ddarperir o dan adran 18 Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989;

(c) eich rôl fel cynghorydd cymuned mewn perthynas â grant, benthyciad neu fath arall o gymorth ariannol a wnaed gan eich cyngor cymuned i gyrff cymunedol neu wirfoddol o hyd at uchafswm o £500.

(3) Nid yw'r eithriadau yn is-baragraff (2)(a) yn berthnasol os yw'r busnes yn berthnasol i benderfyniad ynglŷn ag unrhyw gymeradwyaeth, caniatâd, trwydded neu gofrestriad.

## Pwyllgorau Trosolwg a Chraffu

**13**. Mae gennych chi gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes sydd gerbron pwyllgor trosolwg a chraffu eich awdurdod (neu un o is-bwyllgorau pwyllgor o'r fath) os-

(a) bydd y busnes yn ymwneud â phenderfyniad a wnaed (boed yn cael ei weithredu neu beidio) neu gam gweithredu a gymerwyd gan bwyllgor gweithredol, bwrdd neu bwyllgorau, is-bwyllgorau, cydbwyllgorau neu is-bwyllgor ar y cyd yn eich awdurdod; a

(b) ar adeg y gwnaed y penderfyniad neu y cymerwyd y cam gweithredu, roeddech yn aelod o'r pwyllgor gweithredol, bwrdd, pwyllgor, is-bwyllgor, cydbwyllgor neu is-bwyllgor ar y cyd a nodwyd yn is-baragraff (a) ac roeddech yn bresennol pan wnaed y penderfyniad neu pan gymerwyd y cam gweithredu.

## Cyfrannu mewn perthynas â chysylltiadau a ddatgelwyd

**14 -** (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (2), (2A), (3) a (4), os bydd gennych gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fusnes yn eich awdurdod mae'n rhaid i chi, oni bai eich bod wedi derbyn goddefeb gan bwyllgor safonau eich awdurdod-

(a) adael yr ystafell, siambr neu borth ar-lein ble mae'r cyfarfod sy'n ystyried y busnes yn cael ei gynnal-

(i) pan fo is-baragraff (2) yn berthnasol, ar ôl y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth mewn perthynas â'r busnes wedi dod i ben ac mewn unrhyw achlysur cyn y bo'r busnes yn dechrau cael ei ystyried ymhellach, boed y cyhoedd yn cael aros yn bresennol ar gyfer ystyriaeth o'r fath ai peidio; neu

(ii) mewn unrhyw achos arall, pryd bynnag y daw i'r amlwg bod y busnes yn cael ei ystyried yn y cyfarfod hwnnw;

(b) peidio ag arfer swyddogaethau pwyllgor gweithredol mewn perthynas â'r busnes hwnnw;

(c) peidio â cheisio dylanwadu ar benderfyniad ynglŷn â'r busnes hwnnw;

(d) peidio â gwneud unrhyw sylwadau ysgrifenedig (boed drwy lythyr, ffacs neu ryw fath o ohebiaeth electronig arall) mewn perthynas â’r busnes hwnnw; a

(e) pheidio â gwneud unrhyw sylwadau llafar (boed yn bersonol neu drwy ryw fath o ohebiaeth electronig) mewn perthynas â'r busnes hwnnw neu roi’r gorau i wneud sylwadau llafar o’r fath pan ddaw’r cysylltiad sy’n rhagfarnu i’r amlwg.

(2) Os oes gennych chi gysylltiad sy’n rhagfarnu ag unrhyw fusnes yn eich awdurdod gallwch fynychu cyfarfod ond dim ond ar gyfer gwneud sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth mewn perthynas â’r busnes, ar yr amod bod y cyhoedd hefyd yn cael mynychu’r cyfarfod at yr un diben, boed yn unol â hawl statudol neu fel arall.

(2A) Os oes gennych chi gysylltiad sy’n rhagfarnu ag unrhyw fusnes yn eich awdurdod gallwch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i gyfarfod sy’n ymwneud â’r busnes hwnnw, ar yr amod bod y cyhoedd hefyd yn cael mynychu’r cyfarfod er mwyn cyflwyno sylwadau, ateb cwestiynau neu roi tystiolaeth mewn perthynas â’r busnes, boed yn unol â hawl statudol neu fel arall.

(2B) Pan fyddwch yn cyflwyno sylwadau ysgrifenedig o dan is-baragraff (2A) mae’n rhaid i chi gydymffurfio ag unrhyw weithdrefn y caiff eich awdurdod ei fabwysiadu ar gyfer cyflwyno sylwadau o’r fath.

(3)Nid yw is-baragraff (1) yn eich atal rhag mynychu a chymryd rhan mewn cyfarfod os-

(a) gofynnir i chi fynychu cyfarfod pwyllgor trosolwg a chraffu, gan y cyfryw bwyllgor ac yntau’n arfer ei bwerau statudol; neu

(b) os oes gennych y fantais o oddefeb ar yr amod eich bod chi-

(i) yn datgan eich bod yn dibynnu ar yr oddefeb yn y cyfarfod; ac

(ii) eich bod, cyn y cyfarfod neu’n syth ar ôl i’r cyfarfod orffen, yn rhoi hysbysiad ysgrifenedig i’ch awdurdod a bod hwnnw’n cynnwys -

(aa) manylion y cysylltiad sy'n rhagfarnu;

(bb) manylion am y busnes y mae’r cysylltiad sy’n rhagfarnu’n gysylltiedig ag ef;

(cc) manylion a'r dyddiad y rhoddwyd yr oddefeb; ac

(dd) eich llofnod.

(4) Os bydd gennych chi gysylltiad sy’n rhagfarnu ac eich bod yn gwneud sylwadau ysgrifenedig neu ar lafar i’ch awdurdod gan ddibynnu ar eich goddefeb, mae’n rhaid i chi ddarparu manylion yr oddefeb o fewn unrhyw sylwadau ysgrifenedig neu ar lafar ac, yn achos sylwadau llafar, mae’n rhaid darparu hysbysiad ysgrifenedig i’ch awdurdod o fewn 14 diwrnod o wneud y sylwadau.

## 19.5 RHAN 4 - COFRESTR O GYSYLLTIADAU’R AELODAU

### Cofrestru cysylltiad personol

**15** – (1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), mae’n rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl–

(a) i god ymddygiad eich awdurdod gael ei fabwysiadu neu i ddarpariaethau gorfodol y cod enghreifftiol hwn gael eu cymhwyso i’ch awdurdod; neu

(b) i chi gael eich ethol neu’ch penodi i swydd (os digwydd hynny’n ddiweddarach),

gofrestru eich cysylltiadau personol, os ydynt o fewn categori a nodwyd ym mharagraff 10(2)(a) yng nghofrestr eich awdurdod o gysylltiadau’r aelodau trwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i swyddog monitro eich awdurdod.

(2) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw gysylltiad personol newydd sy’n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru’r cysylltiad personol newydd hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o gysylltiadau’r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl dod yn ymwybodol o unrhyw newid i gysylltiad personol sy’n dod o fewn categori a grybwyllir ym mharagraff 10(2)(a), gofrestru’r newid i’r cysylltiad personol hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o gysylltiadau’r aelodau drwy ddarparu hysbysiad

ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.

(4) Nid yw is-baragraffau (1), (2) a (3) yn berthnasol i wybodaeth sensitif a bennwyd yn unol â pharagraff 16(1).

(5) Ni fydd is-baragraffau (1) a (2) yn berthnasol os ydych yn aelod o awdurdod perthnasol sy'n gyngor cymuned pan fyddwch yn gweithredu yn eich capasiti fel aelod o awdurdod o'r fath.

(6) Pan fyddwch yn datgelu cysylltiad personol yn unol â pharagraff 11 am y tro cyntaf, rhaid i chi gofrestru'r cysylltiad personol hwnnw yng nghofrestr eich awdurdod o gysylltiadau'r aelodau drwy ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer swyddog monitro eich awdurdod, neu, yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod.

### Gwybodaeth sensitif

**16.**-- (1) Pan fyddwch yn credu fod y wybodaeth sy'n ymwneud ag unrhyw un o'ch cysylltiadau personol yn wybodaeth sensitif, a bod swyddog monitro eich awdurdod yn cytuno, nid oes yn rhaid i chi gynnwys yr wybodaeth honno wrth gofrestru'r cysylltiad hwnnw, neu, yn ôl y digwydd, pan fydd newid i'r cysylltiad o dan baragraff 15.

(2) Mae'n rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod o fod yn ymwybodol o unrhyw newid mewn amgylchiadau sy'n golygu nad yw'r wybodaeth a eithriwyd o dan is-baragraff (1) yn wybodaeth sensitif mwyach, hysbysu swyddog monitro eich awdurdod, neu yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod, yn gofyn am gael cynnwys yr wybodaeth yng nghofrestr cysylltiadau aelodau eich awdurdod.

(3) Yn y cod hwn, mae "gwybodaeth sensitif" ("*sensitive information*") yn golygu gwybodaeth y mae ei argaeledd i'w archwilio gan y cyhoedd yn creu, neu'n debygol o greu, risg difrifol y byddwch chi neu unigolyn sy'n byw gyda chi yn destun trais neu fygythiad.

### Cofrestru Rhoddion a Lletygarwch

**17**. Mae’n rhaid i chi, o fewn 28 diwrnod o dderbyn unrhyw rodd, lletygarwch neu fuddiant materol neu fantais sydd â gwerth uwch na £25.00, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig i swyddog monitro eich Awdurdod, neu yn achos cyngor cymuned, swyddog priodol eich awdurdod, ynglŷn â bodolaeth a natur y rhodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais hwnnw.

**ADRAN 19 - ATODIAD 1 - PROTOCOL HUNAN REOLEIDDIO AELODAU**

## 1. Egwyddorion Cyffredinol

1.1 Hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer fel modd o gryfhau parch ac ymddiriedaeth ymhlith Aelodau. NI fwriedir iddo ddod yn lle'r Cod Ymddygiad ond bwriedir iddo eistedd ochr yn ochr â'r Cod

1.2 Y nod yw bod y Protocol yn darparu fframwaith ar gyfer ymdrin â chwyn gan Aelod yn erbyn Aelod arall o'r Awdurdod mewn perthynas ag ymddygiad na fyddai efallai'n cyrraedd y trothwy o dorri'r Cod Ymddygiad neu ymddygiad na fyddai efallai'n cyfiawnhau cwyn ffurfiol i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn y lle cyntaf.

1.3 Nid yw'r Protocol yn dod yn lle'r Protocol Cyswllt Aelodau-Swyddogion a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod.

1.4 Bydd yr Aelodau yn gwneud pob ymdrech resymol i ddatrys anghydfodau trwy brosesau mewnol y cytunwyd arnynt yn amodol ar eu rhwymedigaethau o dan God Ymddygiad yr Aelodau.

1.5 Dewis olaf fydd cyfeirio materion i reoleiddwyr allanol yn amodol ar rwymedigaethau Aelodau o dan y Cod Ymddygiad.

1.6 Bydd aelodau yn osgoi gwrthdaro personol mewn unrhyw fforwm cyhoeddus, yn enwedig yn y Cyngor, ei Bwyllgorau a thrwy'r cyfryngau

1.7 Ni fydd yr ymrwymiadau hyn yn rhwystro trafodaeth neu graffu gwleidyddol dilys

1.8 Disgyblaeth grŵp fydd conglfaen hunan-reoleiddio gydag Arweinwyr Grŵp yn gyfrifol am atgyfnerthu egwyddorion y Protocol gyda'u haelodau eu hunain

1.9 Bydd Arweinwyr Grŵp yn gweithio'n unigol ac ar y cyd i sicrhau y cydymffurfir â'r Protocol hwn

1.10 Bydd yr Aelodau'n ymrwymo i hyfforddiant a datblygiad i gefnogi'r Protocol hwn

1.11 NI fydd y Protocol hwn yn berthnasol i gŵyn bod Aelod wedi methu â datgan cysylltiad

1.12 NI fydd cwynion gan aelodau o'r cyhoedd neu weithwyr yn cael eu trin o dan y Protocol hwn a byddant yn cael eu cyfeirio i'r Ombwdsmon i'w hystyried neu eu trin o dan y Protocol Aelodau / Swyddogion fel y bo'n briodol

## 2. Gweithio er mwyn osgoi problemau

Er mwyn lleihau nifer yr achosion o doriadau honedig bydd yr holl Arweinwyr Grŵp yn ymrwymo i: -

2.1 **Strategaeth Datblygu Aelodau –** a byddant yn ceisio sicrhau ymrwymiad aelodau eu grwpiau iddi. Bydd pob ymdrech resymol yn cael ei wneud i sicrhau bod y Strategaeth Datblygu Aelodau yn nodi ac yn ymateb i anghenion aelodau.

2.2 **Mynychu digwyddiadau hyfforddi Aelodau perthnasol -** yn arbennig y rhai sy'n ymwneud â'r Cod Ymddygiad neu gyrsiau cywirdeb o fewn cwmpas eu rôl.

## 3. Rôl Arweinwyr Grŵp

3.1 Dylai cwynion gael eu gwneud yn y lle cyntaf i'r Swyddog Monitro (neu Ddirprwy Swyddog Monitro)

3.2 Bydd cwyn gan Aelod ynglŷn ag Aelod o'r un grŵp yn cael ei gyfeirio gan y Swyddog Monitro i Arweinydd y Grŵp. Bydd cwyn gan Aelod ynghylch gweithgareddau Aelod o grŵp gwleidyddol gwahanol yn cael ei gyfeirio at Arweinydd y Grŵp yr achwynydd, a fydd wedyn yn cyfeirio'r mater i Arweinydd y Grŵp sy'n gyfrifol am yr Aelod y gwnaethpwyd y gŵyn yn eu herbyn.

3.3 Ar ôl derbyn cwyn, mae'n rhan o rôl yr Arweinwyr Grŵp i gymryd cyfrifoldeb am ddisgyblaeth o fewn eu grwpiau. Dylai disgyblaeth o fewn grŵp geisio bod yn anffurfiol a'i ddatrys drwy gyfarfodydd wyneb yn wyneb lle bynnag y bo modd. Bydd angen i Arweinwyr Grwpiau gadw rhai cofnodion, ond ni fydd y broses yn un "ddogfennol drwm". Dylai'r pwyslais fod ar hyfforddiant, cyfryngu a chymodi.

3.4 Rhaid i'r Arweinydd y Grŵp perthnasol ymgynghori ag Aelod Annibynnol o'r Pwyllgor Safonau ar y cyd â'r Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro. Bydd cyfranogiad Aelod o'r Pwyllgor Safonau yn ceisio sicrhau tegwch a chysondeb yn y ddisgyblaeth a weinyddir o fewn pob grŵp.

3.5 Pan fo'n briodol, gellid rhoi sancsiwn fel tynnu oddi ar bwyllgor neu gorff allanol gan yr Arweinydd Grŵp perthnasol neu efallai gallai'r mater dal gael ei gyfeirio i'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan yr Aelod sy'n gwneud cwyn.

3.6 Pryd bynnag y bydd unrhyw fater o ddisgyblaeth yn cael ei gyfeirio i Arweinydd Grŵp, bydd cyfarfod yn cael ei gynnal (cyn gynted ag y bo'n ymarferol) rhwng yr holl Arweinwyr Grŵp a Chadeirydd yr Awdurdod i drafod y mater a sicrhau bod sancsiynau teg a chyson yn cael eu defnyddio. Gall y Swyddog Monitro neu'r Dirprwy Swyddog Monitro roi cyngor yn y cyfarfod os oes angen.

3.7 Os yw'r gŵyn yn ymwneud ag Arweinydd Grŵp, bydd gofyn i'r Cadeirydd ystyried y gŵyn.

3.8 Mae'r amserlen ar gyfer delio â chwynion ar y siart llif sy'n atodedig.

## 4. Aelodau Digyswllt

4.1 Bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflawni rôl Arweinydd Grŵp mewn perthynas ag unrhyw aelodau digyswllt. Dylai pryderon ynghylch ymddygiad Aelod digyswllt gael eu cyfeirio gan y Swyddog Monitro at y Cadeirydd a fydd yn defnyddio'r un egwyddorion a safonau â rhai'r Arweinwyr Grŵp o ran hyfforddiant/ cyfryngu/ cymodi.

## 5. Tor-amodau Parhaus

5.1 Mewn achosion o dor-amodau parhaus, neu feysydd lle mae gan Arweinwyr Grwpiau bryderon bod ymddygiad Aelod neu Aelodau unigol yn niweidiol i gysylltiadau rhwng grwpiau gwleidyddol neu i enw da'r Cyngor, yna bydd yr Arweinwyr Grŵp yn cyfarfod gyda'r Swyddog Monitro (neu'r Ddirprwy Swyddog Monitro) i gytuno ar y ffordd ymlaen. Bydd ystyriaeth yn cael ei rhoi i atgyfeiriadau ar y cyd i'r Ombwdsmon gan Arweinwyr Grwpiau, ar gyfer tor-amodau parhaus lefel isel.

## 6. Pwyllgor Safonau

6.1 Oherwydd y posibilrwydd o unrhyw wrthdaro o ran materion, dim ond un Aelod annibynnol o'r Pwyllgor Safonau fydd yn gysylltiedig â'r Protocol hwn. Bydd hyn yn amodol ar sail rota ac yn unol ag argaeledd.


6.2 Bydd yr Aelod Pwyllgor Safonau yn chwarae rôl gefnogol/ ymgynghorol i'r Arweinwyr Grwpiau/ Cadeirydd. Bydd y broses hon yn cael ei chychwyn ar gais yr Arweinydd Grŵp mewn unrhyw achos penodol trwy ymgynghori gyda'r Swyddogion Monitro (neu Ddirprwy Swyddog Monitro).

6.3 Bydd cyfarfodydd o'r fath yn breifat ac anffurfiol.

6.4 Bydd unrhyw ddogfennau, nodiadau presenoldeb, nodiadau ffeil neu nodiadau cynghori sy'n pasio rhwng Arweinydd Grŵp (neu fel bo'n briodol Cadeirydd y Cyngor) ac Aelod y Pwyllgor Safonau yn parhau'n breifat a chyfrinachol.

**SIART LLIF**

**Protocol Lleol ar Gŵynion**



**ADRAN 19 – ATODIAD 2: PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH – AELODAU**

**1. Cyflwyniad**

1.1 Dylech drin unrhyw gynnig o rodd neu letygarwch a wneir i chi'n bersonol yn rhinwedd eich rôl fel Cynghorydd gyda'r gofal mwyaf. Rydych yn gyfrifol am unrhyw benderfyniad i dderbyn rhodd neu letygarwch, a gall eich enw da ac enw da'r Cyngor gael ei beryglu wrth i chi dderbyn rhodd neu letygarwch amhriodol.

1.2 Nid yw'n bosib llunio rheolau pendant a fydd yn addas ar gyfer pob achlysur ond mae'r protocol yma yn cynnig canllawiau i'ch cynorthwyo i wneud penderfyniad.

**2. Y Gyfraith**

2.1 Mae derbyn llwgr wobr yn drosedd. Os profir eich bod wedi derbyn rhodd, benthyciad, ffi, gwobr neu fantais gan rywun sy'n ceisio contract gyda'r Cyngor byddai'n rhaid i chi (a'r sawl wnaeth y cynnig) brofi nad ydych wedi ymddwyn yn anonest.

2.2 Mae'r Cod Ymddygiad aelodau yn dweud

- "Rhaid i chi osgoi derbyn rhoddion oddi wrth neb, na lletygarwch (ac eithrio lletygarwch swyddogol, megis derbyniad dinesig neu weithio dros ginio, a awdurdodir yn briodol gan eich awdurdod) na buddiannau materol neu wasanaethau i chi eich hun neu i unrhyw berson os byddai gwneud hynny'n eich rhoi o dan rwymedigaeth amhriodol, neu os gallai'n rhesymol ymddangos fel pe bai'n gwneud hynny."

"Rhaid i chi beidio â defnyddio neu geisio defnyddio yn eich capasiti swyddogol neu fel arall, beidio â defnyddio neu geisio defnyddio eich safle yn amhriodol i roi neu i sicrhau mantais yn eich hun neu i unrhyw berson arall, neu i greu neu i osgoi anfantais i chi eich hun neu i unrhyw berson arall."

"Rhaid i chi, o fewn 28 o ddiwrnodau ar ôl i chi gael cynnig unrhyw rodd, lletygarwch, buddiant materol neu fantais faterol, sy'n werth mwy na £25, ddarparu hysbysiad ysgrifenedig ar gyfer Swyddog Monitro eich Awdurdod yn nodi bodolaeth a natur y rhodd honno, y lletygarwch hwnnw, y buddiant materol hwnnw neu'r fantais faterol honno. Rhaid i chi gofrestru cynnig o'r fath pe derbyniwch ef ai peidio."

**3. Egwyddorion**

3.1 Rhwymedigaeth amhriodol – Ni ddylid byth dderbyn rhodd neu letygarwch fel gwobr neu anogaeth i weithredu neu bleidleisio mewn ffordd arbennig fel cynghorydd na fel modd o brynu dylanwad.

3.2 Budd i'r Cyngor – Dylid ond derbyn rhodd neu letygarwch os daw budd i'r Cyngor (yn hytrach na chi'ch hun) o wneud hynny. Dylai'r budd fod cymesur â gwerth y rhodd neu'r lletygarwch.

3.3 Camddehongli – Ni ddylid derbyn rhodd neu letygarwch pe byddai gwneud hynny yn gadael y Cyngor neu'r aelod yn agored i gyhuddiad o gamymddwyn. Nid yn unig mae'n rhaid ymddwyn yn briodol, mae'n rhaid i aelodau hefyd gael eu gweld yn ymddwyn yn briodol.

3.4 Deisyfu rhodd neu letygarwch – Ni ddylid byth ofyn am neu wahodd rhodd neu letygarwch mewn cyswllt a rôl aelod fel cynghorydd.

## 4. Rhoddion

4.1 Mae "rhodd" yn cynnwys nwyddau a gwasanaethau am ddim, y siawns i brynu nwyddau/gwasanaethau gyda gostyngiad neu ar dermau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd, neu siawns i brynu nwyddau/gwasanaethau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd. Dylid bod yn wyliadwrus o sefyllfaoedd lle archebir gwaith neu nwyddau ond nad oes anfoneb yn cael ei chyflwyno.

4.2 Cewch dderbyn rhoddion dinesig ar ran y Cyngor. Nid yw'r protocol hwn yn berthnasol i'r fath roddion ac nid oes rhaid eu cofrestru 'chwaith.

4.3 Ni ddylech dderbyn rhoddion personol, sy'n berthnasol i'ch safle fel aelod neu'n codi ohono, gan unrhyw un. Serch hynny, mae'n iawn i chi gadw rhoddion bychan a dinod megis beiros, dyddiaduron a.y.b. Hefyd gallwch dderbyn gwobrau raffl.

4.4 Dylech wrthod unrhyw rodd a gynigir i chwi, neu i aelod o'ch teulu agos, gan unrhyw berson neu gorff sydd yn gwneud, neu sydd yn dymuno gwneud, busnes gyda'r Cyngor neu sy'n ceisio penderfyniad gan y Cyngor.

4.5 Wrth wrthod rhodd dylid dweud yn gwrtais ond yn gadarn wrth y cynigydd pa weithdrefnau a safonau sy'n weithredol o fewn y Cyngor. Os anfonir rhodd o'r fath

rhaid ei dychwelyd yn syth i'r anfonwr gydag eglurhad.
dylid cofrestru derbyn a dychwelyd y rhodd os yw yn werth dros £25.
lle bo cynigydd yn mynnu eich bod yn derbyn rhodd, rhaid i chi gysylltu â'r Swyddog Monitro am gyngor ynglŷn â'r modd i weithredu.

## 5. Lletygarwch

5.1 Derbynnir y gall digwyddiadau sy'n cynnwys lletygarwch yn aml fod yn fforwm priodol a llwyddiannus i hyrwyddo'r Awdurdod a'i nodau a'i amcanion economaidd, cymdeithasol ac ati. Felly mae angen cydbwysedd rhwng hyrwyddo'r Awdurdod a'r angen i Aelodau gymryd gofal o ganfyddiadau eraill wrth dderbyn lletygarwch.

Fe ddylai Aelodau ystyried yr egwyddorion a ganlyn:

5.2 Ni ddylech ofyn am na cheisio lletygarwch ar unrhyw adeg.

5.3 Ni ddylech dderbyn cynigion o letygarwch oni bai fod gwir angen i gyfrannu gwybodaeth neu gynrychioli'r Cyngor yn y digwyddiad lle darperir lletygarwch. Dylid cymryd gofal penodol i sicrhau bod lefel y lletygarwch yn briodol i natur a phwysigrwydd unrhyw fater sydd i'w drafod yn y digwyddiad.

5.4 Dylech osgoi lletygarwch mewn sefyllfaoedd lle mai chi fydd yr unig westai.

5.5 Ni ddylech dderbyn cynigion i fynychu achlysuron cymdeithasol neu chwaraeon oni bai eu bod rheswm cyfreithiol i hyrwyddo lles economaidd neu gymdeithasol y Sir ac, yn amodol ar gymeradwyaeth y Swyddog Monitro, mewn digwyddiadau y tu allan i Fwrdeistref Sirol Conwy.

5.6 Lle bydd angen ymweliadau fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau, dylech sicrhau bod y Cyngor yn ariannu'r ymweliadau hynny er mwyn diogelu tegwch y penderfyniadau sydd yn deillio ohonynt.

5.6 Bydd yn dderbyniol i chi dderbyn lletygarwch trwy fod yn bresennol mewn cynadleddau a chyrsiau perthnasol lle bydd yn amlwg mai corfforaethol ac nid personol yw'r lletygarwch, lle bydd y Cyngor yn rhoi caniatâd ymlaen llaw a lle sicrheir y Cyngor na chyfaddawdir unrhyw benderfyniad.

5.8 Medrwch dderbyn lluniaeth arferol mewn cysylltiad â'ch gwaith fel aelod (te, coffi, bisgedi ac ati).

5.9 Os bydd Aelodau wedi'u gwahodd i ddigwyddiad fel cynrychiolydd y Cyngor neu gan Swyddogion neu Gadeirydd y Cyngor, yna dylid datgan y lletygarwch os yw'n cael ei ddarparu neu ei ariannu gan drydydd parti.

5.10 Mewn amgylchiadau lle mae disgwyl i Aelod gynrychioli'r Cyngor ar gyfer dibenion rhwydweithio mewn digwyddiadau y tu allan i oriau gwaith arferol, hy gyda'r nos neu ar y penwythnos, byddai'n rhesymol i'r Aelod hwnnw i ddod â phartner gyda nhw heb unrhyw gost i'r swyddog hwnnw. Nid oes modd trosglwyddo tocynnau ar gyfer partneriaid. Mae hyn yn berthnasol i ddigwyddiadau a drefnir gan sefydliad allanol, busnes neu unigolyn, gan gynnwys digwyddiadau noddedig gan y Cyngor.

5.11 Os bydd Aelod yn derbyn lletygarwch fel cynrychiolydd corff allanol e.e. Awdurdod Parc Cenedlaethol yna dylai'r Aelod dan sylw gydymffurfio â Phrotocol y sefydliad hwnnw o ran Anrhegion a Lletygarwch.

5.12 Er mwyn osgoi amheuaeth, nid oes angen datgan lletygarwch sydd wedi'i noddi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy.

## 6. Rôl Aelodau mewn Digwyddiadau Noddedig Corfforaethol

6.1 Mae Aelodau yn mynychu nifer o ddigwyddiadau sy'n cael eu trefnu neu eu noddi gan y Cyngor, ac mewn rhai achosion maent yn mynychu ar ôl derbyn tocynnau neu leoedd sydd wedi'u clustnodi pan fydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn croesawu gwesteion sydd wedi'u dewis drwy dalu am letygarwch corfforaethol.

6.2 Mae aelodau yn gweithredu fel llysgenhadon y Cyngor i gynorthwyo i fynegi a gwella delwedd gyhoeddus y Cyngor, gan hyrwyddo gwaith y Cyngor a rhwydweithio gyda phartneriaid neu fudd-ddeiliaid allweddol.

6.3 Disgwylir i aelodau fynychu unrhyw sesiynau briffio cyn y digwyddiad a drefnwyd gan swyddogion fel eu bod yn cael eu cefnogi'n llawn wrth ymgymryd â rôl llysgenhadon y Cyngor yn llwyddiannus.

6.4 Caiff tocynnau neu leoedd ar gyfer digwyddiadau noddedig corfforaethol eu dyrannu yn awtomatig i'r Arweinydd, Cadeirydd y Cyngor, a'r Aelod Cabinet perthnasol (os yw'r digwyddiad yn gysylltiedig â phortffolio penodol). Os nad ydynt yn dymuno neu ddim yn gallu bod yn bresennol, gallant awgrymu Aelod o'r Cabinet neu Aelod arall i'w cynrychioli.

6.5 Os nad yw Aelodau yn ymwneud yn uniongyrchol â'r digwyddiad bydd nifer penodol o docynnau neu leoedd yn cael eu cadw; bydd yr union nifer yn cael ei bennu yn unol â chapasiti'r digwyddiad neu'r gost i'r Awdurdod fel y bo'n gymwys.

6.6 Caiff Arweinwyr Grŵp wybod sawl tocyn neu le sydd ar gael ac yna gofynnir iddynt enwebu Aelodau i fod yn bresennol. Unwaith y cânt eu henwebu, nid oes modd trosglwyddo tocynnau i Aelodau eraill nad ydynt wedi'u henwebu.

6.7 Os nad oes galw mawr am y tocynnau neu lefydd, yna fe all yr Aelodau sydd wedi'u henwebu i fynychu ofyn am docynnau ychwanegol ar gyfer eu cymdeithion. Nid oes modd trosglwyddo tocynnau sydd wedi'u dyrannu yn y modd hwn.

6.8 Os nad yw'r Aelod a enwebwyd yn gallu bod yn bresennol ar ddiwrnod y digwyddiad yna mae angen rhoi gwybod cyn gynted ag y bo modd i'r trefnwyr er mwyn i'r tocynnau neu leoedd gael eu hailddyrannu neu edrych eto ar y trefniadau arlwyo er mwyn osgoi cost dros ben i'r Awdurdod.

## 7. Cofrestru

7.1 Dan God Ymddygiad y Cyngor mae'n rhaid i chi gofrestru unrhyw rodd neu letygarwch a gewch sy'n werth dros £25. Hefyd dylech gofrestru unrhyw gynnig yr ydych yn ei wrthod ac sy'n werth dros £25.

7.2 Cedwir y gofrestr rhoddion a lletygarwch gan y Swyddog Monitro a dylid ei hysbysu'n ysgrifenedig o unrhyw rodd neu letygarwch a dderbynnir neu a wrthodir sy'n werth dros £25. Bydd y gofrestr ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

7.3 Rhaid cofio mai ffigwr ar gyfer cofrestru yw £25 ac nid yw'n golygu'n angenrheidiol y medrwch dderbyn unrhyw rodd neu letygarwch sy'n werth llai na hynny. Rhaid i chi ystyried yn ofalus bob cynnig beth bynnag fo'i werth.

## 8. Cyngor Pellach

8.1 Os oes gennych amheuaeth ynglŷn ag unrhyw gynnig, dylech ofyn am gyngor y Swyddog Monitro.

8.2 Mae'r Ombwdsmon wedi cyhoeddi canllawiau statudol ar y Cod Ymddygiad a sut i'w ddehongli. Gellir eu gweld ar ei wefan - www.ombudsman-wales.org.uk